**Dyddiad cyhoeddi** Chwefror 2013

**Gwybodaeth i'r cyhoedd**

NHS
National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin gwythiennau chwyddedig â phigiadau ewyn drwy lywio â sgan uwchsain

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ynghylch pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio pigiadau ewyn (a elwir yn sclerotherapi ewyn) yn y GIG i drin pobl â gwythiennau chwyddedig. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio gwythiennau chwyddedig na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau efallai y byddwch am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn i drin pobl sydd â gwythiennau chwyddedig, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth, beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth yn cynnwys tyndra dros dro yn y frest, peswch sych, cur pen, problemau gyda'r golwg, a phroblemau anfynych ond difrifol fel trawiad ar y galon, ffitiau a strôc (yn cynnwys pyliau isgemig dros dro, a elwir yn strociau bach).

*Efallai nad dyma fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer gwythiennau chwyddedig. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.*

## Trin gwythiennau chwyddedig â phigiadau ewyn drwy lywio â sgan uwchsain

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'sclerotherapi ewyn a gaiff ei lywio gan sgan uwchsain i drin gwythiennau chwyddedig'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae falfiau bach y tu mewn i'r gwythiennau yn helpu'r gwaed i lifo'n rhwydd drwyddynt. Mae gwythiennau chwyddedig yn datblygu pan na fydd y falfiau hyn yn gweithio'n iawn, gan alluogi gwaed i gasglu yn y gwythiennau. Mae hyn yn ehangu'r gwythiennau ac yn achosi i'r falfiau ddirywio ymhellach. Mae gwythiennau chwyddedig yn digwydd yn y coesau fel arfer. I lawer o bobl nid oes unrhyw symptomau, ond os byddant yn eu cael, gall y rhain gynnwys trymder, poen, gwayw, cosi, crampiau neu flinder yn y coesau.

Os bydd angen, gall teits neu hosanau wella symptomau gwythiennau chwyddedig. Os bydd y symptomau'n mynd yn ddifrifol (gydag afliwiad o'r croen, llid ar y croen neu wlserau ar y croen) gellir cynnig llawdriniaeth i bobl i dynnu neu glymu'r gwythiennau yr effeithiwyd arnynt neu'r ddau, neu driniaethau i dynnu'r gwythiennau gan ddefnyddio laser neu ynni gwres.

Gellir cynnal y driniaeth hon o dan anesthetig lleol.

Mae sclerotherapi ewyn yn defnyddio cemegyn (o'r enw sclerosydd, sy'n achosi creithiau y tu mewn i'r wythïen fel ei bod yn blocio) wedi'i gymysgu ag aer neu nwy arall i greu ewyn. Chwistrellir yr ewyn i'r gwythiennau yr effeithir arnynt gan ddefnyddio delweddau uwchsain i fonitro ei hynt. Gellir trin mwy nag un wythïen ar yr un pryd. Os bydd angen rhagor o driniaeth ar unrhyw wythïen chwyddedig, gellir rhoi rhagor o bigiadau yr un pryd neu mewn triniaeth arall. Fel arfer caiff rhwymau cywasgu eu gwisgo am gyfnod rhwng wythnos a mis ar ôl y driniaeth.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio’n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod trin gwythiennau chwyddedig gyda phigiadau ewyn drwy lywio â sgan uwchsain yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o’r manteision a’r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 22 o astudiaethau o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Edrychodd astudiaeth o 73 o gleifion (cynhaliwyd triniaethau ar 82 o goesau) ar ba mor dda yr oedd gwythiennau'n cael eu blocio gan ddefnyddio pigiadau ewyn ynghyd â chlymu'r wythïen hir sy'n rhedeg o'r droed i'r fordwydd, o gymharu â llawdriniaeth yn unig. Pan holwyd y cleifion ar ôl pum mlynedd, nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng pigiad ewyn a llawdriniaeth a llawdriniaeth yn unig. Mewn 33 o gleifion a gafodd eu trin gyda phigiadau ewyn a llawdriniaeth, roedd y wythïen chwyddedig wedi blocio uwchben y ben-glin mewn 19 ohonynt, ac wedi blocio o dan y ben-glin mewn wyth ohonynt. Mewn 26 o gleifion a gafodd lawdriniaeth yn unig, roedd y wythïen chwyddedig wedi blocio uwchben y ben-glin mewn 14 ohonynt, ac wedi blocio o dan y ben-glin mewn 10 ohonynt. Yn y ddau grŵp roedd gwythiennau'r cleifion yn llai chwyddedig ac roedd ansawdd eu bywyd yn well bum mlynedd ar ôl y driniaeth.

Ar gyfer blocio gwythiennau, nid oedd pigiadau ewyn yn fwy effeithiol na fformiwla hylif mewn dwy astudiaeth (yn cynnwys cyfanswm o 340 o gleifion, gyda'r archwiliadau dilynol rhwng un a 10 mlynedd yn ddiweddarach).

Nid oedd gwythiennau chwyddedig yn parhau i fod wedi blocio mewn 23 allan o 146 o gleifion a gafodd bigiadau ewyn (cynhaliwyd triniaethau ar 203 o goesau). O'r cleifion hynny, roedd gan 4% wythiennau chwyddedig gyda symptomau difrifol fel newidiadau yn lliw y croen, poen neu chwyddo o fewn pum mlynedd o gael y driniaeth. Roedd gan 22% pellach o gleifion symptomau nad oeddent yn ddifrifol, ac nid oedd

gan 74% o gleifion nad oedd eu gwythiennau chwyddedig wedi blocio o hyd ar ôl cael pigiadau ewyn unrhyw symptomau ar ôl pum mlynedd.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai prif nodau'r driniaeth yw gwella gallu cleifion i symud o amgylch ac osgoi wlserau ar y coesau.

## Risgiau a phroblemau posibl

Nodwyd cymhlethdodau difrifol ar ôl pigiadau ewyn mewn rhai cleifion. Manylodd un astudiaeth ar dri chlaf a oedd wedi cael strociau ar ôl y driniaeth. Roedd gan bob un ohonynt ddiffyg o'r enw fforamen hirgrwn amlwg. Gwellodd tri chlaf yn llwyr ac nid oedd ganddynt unrhyw symptomau pellach o strôc. Mewn astudiaeth o 1025 o gleifion gyda phigiadau ewyn, cafodd un claf fath o strôc fach o'r enw pwl o isgemia dros dro. Gwellodd y claf hwn o fewn hanner awr.

Mewn adolygiad o astudiaethau yn cynnwys 6856 o gleifion, cafodd un claf drawiad ar y galon o fewn 30 munud a chafodd claf arall ffit epileptig o fewn 40 munud o gael pigiad ewyn (ni nodwyd unrhyw fanylion pellach am y cleifion hyn). Yn yr un astudiaeth cafodd hyd at 3% o gleifion beswch, tyndra yn y frest, teimladau o banig, anesmwythder neu lewygu, rhwng un mis a phum mlynedd ar ôl y driniaeth.

Nododd astudiaeth a oedd yn cynnwys 82 o gleifion gyda diffyg ar y galon sef fforamen hirgrwn amlwg swigod yn y pibellau gwaed i'r ymennydd mewn 60 o gleifion yn fuan ar ôl iddynt gael pigiad ewyn. Cafodd y cleifion hyn eu monitro am un, saith neu 28 diwrnod, ac ni nodwyd unrhyw symptomau newydd yn effeithio ar eu hymennydd na'u system nerfol. Mewn astudiaeth o 977 o gleifion, amharwyd ar olwg

pum claf am gyfnod dros dro yn ystod y driniaeth neu'n fuan wedyn, a chafodd tri chlaf gur pen yn union ar ôl y driniaeth.

Yn yr astudiaeth o 977 o gleifion, nodwyd bod rhydweli yn yr ysgyfaint wedi blocio (a elwir yn emboledd ysgyfeiniol) mewn un claf, bum wythnos ar ôl y pigiad ewyn. Triniwyd y bloc gyda chyffur sy'n atal y gwaed rhag ceulo.

Nodwyd problemau eraill mewn astudiaeth o 430 o gleifion. Nodwyd gwythiennau chwyddedig yn y goes mewn 17 o gleifion allan o 230 a gafodd y pigiad ewyn, o gymharu â dim un o'r 200 o gleifion a gafodd lawdriniaeth. Ar ôl dwy flynedd, roedd y croen wedi tywyllu mewn 12 allan o 213 o gleifion a gafodd eu trin gyda phigiad ewyn o gymharu â dau allan o 177 o gleifion a gafodd lawdriniaeth.

Yn ogystal ag ystyried yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai ewyn yn gollwng i'r feinwe o amgylch y wythïen chwyddedig fod yn un broblem bosibl a achosir gan y driniaeth.

## Rhagor o wybodaeth am wythiennau chwyddedig

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

I gael manylion holl ganllawiau NICE ar wythiennau chwyddedig, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol gwahanol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â 'sclerotherapi ewyn drwy lywio â sgan uwchsain ar gyfer gwythiennau chwyddedig'. Mae'r ddogfen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn guidance.nice.org.uk/HTG301*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8720-7
N2898 February 2013

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.